| Prifysgol Caerdydd | 943 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 190 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Abertawe | 700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol De Cymru | 365 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 234 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 73 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |

[8] http://uniswales.ac.uk/media/UNI010-Economic-Impact-Report_FINAL.pdf

[9] Mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar incwm gwirioneddol prifysgolion yn 2018/19 a chyfartaledd cyflogau staff amser llawn yn 2018/19

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 68
Ymateb gan: ColegauCymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 68
Response from: CollegesWales



# RHAGAIR

Mae lledaeniad Covid-19 (neu Coronafeirws) wedi tarfu'n ddifrifol ar gymunedau a theuluoedd ledled Cymru. Nod y briff hwn yw helpu ein rhanddeiliaid i ddeall y sefyllfa y mae Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru yn ei chymryd mewn ymateb i'r pandemig hyd yma, a pha gamau y mae Fforwm Penaethiaid ColegauCymru wedi'u cymryd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, yn y budd gorau dysgwyr ôl-16 ledled y wlad.

## Cefndir

Ar Chwefror 28ain 2020, cadarnhawyd achos cyntaf Covid-19 yng Nghymru. Ers hynny, mae cyfanswm yr achosion a marwolaethau wedi cynyddu'n gyflym. Ar Ebrill 15fed, cyfanswm y marwolaethau yng Nghymru o ganlyniad i'r firws oedd 463, tra bod nifer yr achosion a gadarnhawyd yn 6,118, er y dywedir bod y gwir nifer yn uwch[1]. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, de-ddwyrain Cymru yw'r ardal sydd wedi'i heffeithio waethaf yn y wlad, gyda 1,570 o achosion ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, a 1,471 o achosion ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (gyda Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg yn dilyn yn agos ar ôl)[2]. Mae'r ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan y Byrddau Iechyd hyn yn cynnwys saith coleg a dros 30 o gampysau sy'n gartref i ddysgwyr academaidd a galwedigaethol 14+ oed.

## Yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg

Ar Fawrth 18fed, yn ystod Fforwm Penaethiaid ColegauCymru, cyfarfu Penaethiaid a Phrif Weithredwyr o bob coleg ledled Cymru i drafod ymateb cydgysylltiedig ar draws y sector AB i Covid-19. Gwnaed y penderfyniad i atal yr holl ddarpariaeth wyneb i wyneb erbyn Mawrth 20fed a chymryd dull graddol o weithio'n wahanol, gyda'r pwyslais ar ddarpariaeth ar-lein. Yn bwysig, gwnaed y penderfyniad i gadw campysau coleg ar agor gyda staff sgerbwd lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad o hyd i lyfrgelloedd a chefnogaeth. Nid yw platfform dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr AB neu brentisiaid. O ganlyniad, mae SABau wedi buddsoddi mewn ystod o Lwyfannau Dysgu Rhithwir i gyrraedd eu myfyrwyr. Mae staff cymorth colegau hefyd wedi defnyddio llwyfannau ar-lein fel Teams neu Zoom ar gyfer cyfarfodydd staff, gan sicrhau bod gweinyddiaeth y colegau yn parhau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn dilyn cyfarfod y Fforwm Penaethiaid ar Fawrth 18fed, ysgrifennodd ColegauCymru at y Gweinidog Addysg ar ran y sector, a derbyniodd ymateb cyflym ar Fawrth 20fed. Canmolodd y Gweinidog y cydweithredu rhagweithiol parhaus rhwng colegau, a diolchodd i GolegauCymru am gydlynu trafodaethau â swyddogion. Mewn ymateb i bryderon penodol a godwyd gan ColegauCymru, cadarnhaodd y bydd taliadau LCA, a gefnogodd 15,090 o ddysgwyr AB y llynedd[3], yn dal i gael eu gwneud er bod addysg wyneb i wyneb wedi'I atal, a gall taliadau Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddysgwyr a chyflenwyr barhau i gael ei wneud. Mae colegau yn anelu at fod mor gefnogol â phosibl i'w dysgwyr bregus, yn ogystal â'r cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol iddynt, ar yr adeg heriol hon.

[1] https://coronaviruscymru.wales/
[2] https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary
[3] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Student-Support/Educational-Maintenance-Allowances-Further-Education/approvedemaapplications-by-gender-learningcentretype-awardtype



Mae'r tabl isod yn dangos y data mwyaf diweddar ar gyfer nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn colegau AB ac yn rhoi syniad o'r niferoedd sy'n tarfu o ganlyniad i Covid-19. Bydd pob dysgwr unigol yn wynebu ei heriau ei hun wrth barhau i ddysgu ar yr adeg hon. Mae colegau wedi cymryd camau penodol i gefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o astudiaethau. Mae her ymddieithrio wedi bod yn brif bryder i bob SAB.

NIFER O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU MEWN COLEGAU AB YNG NGHYMRU 2018/19[4]

Ffig.1

| Coleg | Dysgwyr |
|---|---|
| Coleg Penybont | 6,775 |
| Coleg Sir Gâr | 8,020 |
| Coleg Gwent | 10,835 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 16,160 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 2,170 |
| Coleg Sir Benfro | 5,095 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 1,380 |
| Coleg Gwyr Abertawe | 10,595 |
| Coleg Caerdydd a’r Fro | 11,450 |
| Coleg Cambria | 16,135 |
| Coleg y Cymoedd | 9,450 |
| Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales | 12,510 |
| Grŵp Colegau NPTC | 10,985 |
| Cyfanswm | 121,560 |

*Ffynhonnell: StatsCymru*

[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/providerlearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-level

# ARHOLIADAU AC ASESIADAU

## TGAU, Safon UG a Safon Uwch (U2)

Ar Fawrth 18fed 2020, ar ôl ymgynghori â Cymwysterau Cymru a CBAC, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai arholiadau TGAU a Safon Uwch 2020 yr haf (sy'n effeithio'n bennaf ar ddysgwyr ym mlynyddoedd 11 a 13) yn cael eu canslo. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd na fyddent yn cynhyrchu mesurau cyflawniad na pherfformiad gwerth ychwanegol ar gyfer 2019/20. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gwnaeth Cymwysterau Cymru ddatganiad yn dweud eu bod yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ledled y DU "i sicrhau bod dysgwyr oedd i fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael gradd deg i gydnabod eu gwaith."[5] Yn ystod yr amser hwn mae ColegauCymru wedi bod yn awyddus i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â'r rheolydd a hefyd gyda'r cyrff dyfarnu. O ystyried maint y dysgu sy'n digwydd mewn SABau, gweler Tabl 1, mae'r ymgysylltiad hwn yn gwella'n araf a bydd yn allweddol ar gyfer asesiad academaidd yn ogystal ag asesiad galwedigaethol.

Ar Fawrth 27ain 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg sut y bydd dysgwyr blwyddyn 10 a blwyddyn 12 gyfredol yng Nghymru yn cael eu hasesu, yn dilyn cychwyn Covid-19 a chanslo arholiadau haf 2020[6]. Bydd dysgwyr ym mlwyddyn 10 yn derbyn gradd yn seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys asesiadau athrawon yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma. Mae ColegauCymru yn gefnogol i'r math hwn o asesiad gan mai hwn yw'r ffordd fwyaf realistig ac ymarferol ymlaen i ddysgwyr a darlithwyr coleg. Dyfernir cymwysterau Safon UG mewn ffordd debyg. Fodd bynnag, yn haf 2021, rhoddir dau opsiwn i ddysgwyr UG cyfredol ar gyfer eu dyfarniad Safon Uwch:


- sefyll yr unedau U2 yn unig, gyda'r radd Safon Uwch yn cael ei dyfarnu ar eu perfformiad yn yr unedau U2 yn unig;
- neu sefyll yr unedau UG ac U2. Byddant yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

Gan ddefnyddio'r data mwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru, yn 2018/19, roedd 121,560 o ddysgwyr unigryw wedi cofrestru mewn SABau yng Nghymru[7]. O'r dysgwyr hyn, roedd 23,385 o weithgareddau dysgu UG a Safon Uwch (gweithgaredd yw un mynediad arholiad)[8]. Er nad hwn yw'r ffigur mwyaf diweddar (nid yw data 2019/20 wedi'i cyhoeddi eto) mae'n rhoi arwydd clir o nifer yr arholiadau a fydd yn cael eu canslo eleni.

## Cymwysterau Galwedigaethol

Er bod y sefyllfa o ran TGAU a Safon Uwch yn gliriach, mae trafodaethau ar y gweill ynghylch sut i ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol. Mae ColegauCymru yn pwyso am lefel o gydraddoldeb a chysondeb. Mae datganiad ar asesu cymwysterau galwedigaethol bellach wedi'i ryddhau gan Ofqual a Cymwysterau Cymru, a bydd y sector yn ystyried ac yn ymateb i'r gofynion amrywiol a roddir ar golegau.

[5] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/penderfyniad-i-ganslo-arholiadau-haf-2020/
[6] https://llyw.cymru/gweinidog-addysg-yn-cyhoeddi-trefniadau-arholi-ar-gyfer-blynyddoedd-10-12?_ga=2.108209345.25655348.1587032538-544668597.1574855019
[7] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/providerlearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-level
[8] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/learningactivitiesfurthereducationinstitutions-byqualificationtype-age-gender



# DEDDFWRIAETH

Roedd dau Fil addysg fawr- y Mesur Cwricwlwm ac Asesu, a Bil ar sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (y cyfeirir ato weithiau fel "Bil PCET")- ar fin cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y Rhaglen Llywodraeth gyfredol. Roedd rheolaeth a chraffu ar y ddau Fil mewn cyfnod cymharol fyr eisoes yn heriol cyn dechrau Covid-19.

Ar Ebrill 1af 2020, gwnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford ddatganiad ar agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddeddfwriaeth yng ngoleuni Covid-19. Cadarnhaodd fod y Bil ar Gwricwlwm ac Asesu yn "flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth", a bod gweddill y rhaglen ddeddfwriaethol "yn parhau i gael ei hadolygu'n barhaus"[9]. Mae ColegauCymru ac aelodau'r Fforwm Penaethiaid yn parhau i fod yn gefnogol i egwyddorion ac amcanion y ddau fil pwysig hyn, fodd bynnag, y blaenoriaeth i arweinwyr AB yw mynd i'r afael â heriau'r pandemig.

[9] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dull-y-llywodraeth-o-ymdrin-deddfwriaeth-yn-dilyn-yr-achosion-o-covid-19?_ga=2.16404341.25655348.1587032538-544668597.1574855019

# BETH NESAF?

Yn fwyaf brys, mae ColegauCymru yn aros am gadarnhad gan Gymwysterau Cymru ynghylch asesu cymwysterau galwedigaethol. Byddwn yn diweddaru rhanddeiliaid trwy'r cyfryngau cymdeithasol unwaith y bydd ymateb wedi dod i law.

Mae'n dal yn aneglur pa mor hir na fydd ysgolion a cholegau'n gallu darparu addysgu wyneb i wyneb oherwydd covid-19. Mae'r sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, felly mae'n amhosibl rhagweld beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Os bydd gohirio gweithgareddau wyneb i wyneb, gan gynnwys addysgu, yn parhau y tu hwnt i fis Medi 2020, bydd yn creu her i gofrestriadau coleg. Byddai hon yn sefyllfa ddigynsail i golegau.

Bydd ColegauCymru yn parhau i fonitro diweddariadau gan Lywodraeth Cymru er bod sesiynau llawn Cynulliad Cymru bellach i fod i gael eu cynnal ar ddydd Mercher yn unig trwy fideo-gynadledda.

Ar Chwefror 12fed 2020, cyhoeddodd Kirsty Williams fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £2 filiwn yn ychwanegol i ddatblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles mewn colegau ledled Cymru. Meddai,

"Mae sicrhau bod gan fyfyrwyr o bob oed fynediad at gymorth iechyd meddwl yn un o'm blaenoriaethau ac rwy'n falch ein bod yn darparu cyllid ychwanegol i golegau i ddatblygu eu gwasanaethau cymorth rheng flaen."

Mae'r sector bellach yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd ar gael i gefnogi dysgwyr, gan ystyried effaith y sefyllfa covid-19. Sicrhau canlyniadau dysgu cadarnhaol a lles dysgwyr yw cyd-flaenoriaethau'r sector. Mae cynllunio ar gyfer dyfodol ansicr hefyd wedi cychwyn a bydd y sector yn parhau i ymgysylltu â'i holl randdeiliaid allweddol wrth i hyn esblygu.

## Casgliad

Mae colegau a'u dysgwyr wedi dangos chydnerthedd yn ystod amseroedd anodd dros ben, gan symud o ddysgu wyneb i wyneb i addysg digidol ar-lein ac ymdrin ag aflonyddwch i'r asesiadau y byddent wedi'u disgwyl. Mae cadw dysgwyr i ymgysylltu â'u hastudiaethau yn hanfodol, felly mae colegau yng Nghymru yn ymroddedig i ddarparu'r dysgu digidol a dysgu o bell gorau posibl. Yn ystod yr amser hwn a thrwy gydol cyfnod yr argyfwng iechyd cyhoeddus, bydd colegau yn cydweithredu i ddatblygu a rhannu arfer gorau i sicrhau'r profiadau dysgu mwyaf cadarnhaol posibl i'w dysgwyr.

Gan fod y sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, rydym wedi ceisio cadw'r briff hwn mor gyfoes â phosibl. Mae unrhyw ddiweddariadau pellach ar gael ar ein gwefan[10] neu dudalen Twitter[11].

## Dolenni defynddiol

https://llyw.cymru/addysg-bellach-ac-addysg-uwch-coronafeirws?_ga=2.16404341.25655348.1587032538-544668597.1574855019
https://llyw.cymru/addysg-uwch-chymorth-i-myfyrwyr-coronafeirws?_ga=2.183689445.25655348.1587032538-544668597.1574855019#
https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/

[10] www.colegau.cymru www.colleges.wales
[11] https://twitter.com/colegaucymru

ColegauCymru
CollegesWales

Ffôn
02920 522 500

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

ColegauCymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

Gwefan
www.colegau.cymru



Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 68a
Ymateb gan: ColegauCymru

---

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 68a
Response from: CollegesWales

---

ColegauCymru
CollegesWales

# COVID-19 A DYSGU SEILIEDIG AR WAITH (DSW) MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH (AB) YNG NGHYMRU

Ebrill 2020

BRIFF COLEGAUCYMRU

# RHAGAIR

Mae lledaeniad Covid-19 (neu Coronafeirws) wedi effeithio'n ddifrifol ar gymunedau a theuluoedd ledled Cymru. Nod y briff hwn yw helpu ein rhanddeiliaid i ddeall y sefyllfa y mae darparwyr WBL yn y sector Addysg Bellach yng Nghymru yn ei chymryd wrth ymateb i'r pandemig hyd yma, a pha gamau y mae Fforwm Penaethiaid ColegauCymru wedi'u cymryd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, er mwyn sicrhau'r gorau i brentisiaid a'r rhai sy'n ymgymryd â hyfforddeiaethau.

## Cefndir

Ar 28ain Chwefror 2020, cadarnhawyd achos cyntaf Covid-19 yng Nghymru. Ers hynny, mae cyfanswm yr achosion a'r marwolaethau wedi cynyddu'n gyflym, er bod arwyddion bod y rhain bellach yn dechrau sefydlogi ac arafu. Ar 21ain Ebrill, cyfanswm y marwolaethau yng Nghymru o ganlyniad i'r firws oedd 609, tra bod nifer yr achosion a gadarnhawyd yn 7,850, er y dywedir bod y gwir nifer yn uwch[1]. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, de-ddwyrain Cymru yw'r ardal sydd wedi'i heffeithio gwaethaf yn y wlad, gyda 1,835 o achosion ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, a 1,828 o achosion ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (gyda Chwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg yn dilyn yn agos ar ôl)[2]. Mae'r ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan y Byrddau Iechyd hyn yn cynnwys saith coleg a dros 30 o gampysau lle mae prentisiaid a hyfforddeion wedi'u cofrestru.

## Y sector DSW yng Nghymru

Mae pob coleg yng Nghymru yn darparu DSW naill ai fel deiliad contract arweiniol neu fel aelod o gonsortiwm. Mae Tabl 1 yn dangos faint o raglenni dysgu a gynhaliwyd yn 2018/19 ar draws y sector DSW cyfan. O dan yr amgylchiadau presennol, mae'n amlwg y bydd dysgwyr gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus yn gweld cryn newid i'w hastudiaethau wrth iddynt weithio/gwirfoddoli mwy yn eu sector. Oherwydd gofynion gwaith o ganlyniad i Covid-19, nid oes gan rhai o'r dysgwyr hyn y gallu i gwblhau asesiadau ffurfiol a dysgu gwybodaeth ysgrifenedig ar hyn o bryd. Mae colegau'n cefnogi'r dysgwyr hyn trwy sicrhau bod tiwtoriaid ac aseswyr mewn cysylltiad rheolaidd dros ffôn a fideo er mwyn cynnal trafodaethau ddysgu, adolygiadau ac i gynnig cefnogaeth bellach.

Y mae sectorau galwedigaethol eraill hefyd wedi eu heffeithio, ac nid oes penderfyniad eto wedi ei gyhoeddi o safbwynt asesiadau prentisiaid, a dysgwyr galwedigaethol o fewn darpariaeth coleg prif ffrwd. Bydd angen asesu i sefydlu lefel hyfedredd technegol, sail i wybodaeth ac, mewn rhai achosion, sgiliau hanfodol. Yn ogystal, mae darparwyr DSW yn cefnogi prentisiaid ar draws ystod o feysydd dysgu eraill i sicrhau eu bod yn derbyn profiad dysgu cyfannol. Yn ogystal â phrentisiaethau galwedigaethol traddodiadol, mae DSW yn cynnwys gweithgareddau i gynorthwyo unigolion i ail-gysylltu mewn dysgu a hyfforddiant ffurfiol. Cyfeirir at y rhain fel 'hyfforddeiaethau' ac mae yna raglenni hefyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru i wella cyflogadwyedd unigolion fel y rhaglen Twf Swyddi Cymru. Mae cynnwys y rhaglenni hyn yn cael ei bennu gan fanyleb raglen fanwl ac fe'u cyflwynir trwy gontractau a sefydlwyd o dan fframwaith caffael. Mae'r gofynion galwedigaethol yn cael eu pennu gan y fframweithiau prentisiaeth benodol, ac maent yn berthnasol i brentisiaethau Llywodraeth Cymru a phrentisiaethau a ariennir yn breifat, a ddarperir hefyd gan golegau. Er mwyn i brentis gwblhau ei raglen yn llwyddiannus, rhaid iddo ddangos cymhwysedd technegol yn ogystal â'r wybodaeth sylfaenol ofynnol. Ar gyfer rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru, rhaid iddynt hefyd gwblhau'r gofynion ychwanegol a nodir ym manyleb y rhaglen.

[1] https://coronaviruscymru.wales/
[2] https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) yng Nghymru. Mae'r data'n cynnwys DSW a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach a hefyd DSW a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant eraill[3].

RHAGLENNI DYSGU SEILIEDIG AR WAITH FESUL SECTOR A'R MATH O RHAGLEN

Tabl 1

| | 2018/19 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4+ | Pob Rhaglen |
| Pob Rhaglen | 21620 | 25510 | 10370 | 57500 |
| Amaethyddiaeth | 335 | 255 | 40 | 630 |
| Adeiladwaith | 2700 | 2770 | 125 | 5595 |
| Peirianneg | 2110 | 2695 | 215 | 5020 |
| Gweithgynhyrchu | 855 | 150 | 15 | 1020 |
| Cludiant | 130 | 20 | 0 | 150 |
| Rheolaeth a Phroffesiynol | 900 | 2710 | 3905 | 7515 |
| Gweinyddiaeth Busnes | 2015 | 3415 | 1200 | 6630 |
| Manwerthu/Gwasanaeth Cwsmer | 1175 | 1155 | 45 | 2375 |
| Hamdden, Chwaraeon, Teithio | 760 | 1535 | 20 | 2315 |
| Lletygarwch | 1555 | 1115 | 90 | 2760 |
| Gwallt a Harddwch | 1150 | 590 | 10 | 1750 |
| Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus | 7915 | 8985 | 4685 | 21585 |
| Cyfryngau Dylunio | 20 | 115 | 25 | 160 |

*Ffynhonell: StatsCymru*

---

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer y dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn dysgu seiliedig ar waith (DSW) yng Nghymru. Mae'r data'n cynnwys DSW a ddarperir gan sefydliadau AB a DSW a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant eraill[4].

DYSGWYR UNIGRYW MEWN DARPARIAETH DYSGU SEILIEDIG AR WAITH YN ÔL GRŴP OEDRAN, RHYW A'R MATH O RAGLEN

Tabl 2

| | Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau yng Nghymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | Prentisiaeth Sylfaen (Lefel 2) | Prentisiaeth (Lefel 3) | Prentisiaeth Uwch (Lefel 4+) | Pob Rhaglen Brentisiaeth | Hyfforddeiaethau |
| Pob dysgwr | 19870 | 24775 | 10145 | 54790 | 6,500 |

*Ffynhonell: StatsCymru*

[3] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Time-Series/numberofworkbasedlearningprogrammes-by-sector-programme
[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Work-Based-Learning/uniquelearnersworkbasedlearning-by-age-gender-programmetype

# DYFARNU CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL HAF 2020

Yn seiliedig ar yr ystod o ofynion dysgu, mae colegau'n parhau i sicrhau bod dysgwyr yn gorffen eu hastudiaethau ac yn cwblhau eu hasesiadau yn ôl y disgwyl, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r mwyafrif o brentisiaid yn dal i gael eu haddysgu gydag asesiadau ac adolygiadau yn cael eu cynnal o bell. Er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn, mae rhai colegau wedi cynnig defnyddio gliniaduron ac adnoddau eraill i sicrhau y gall dysgwyr barhau i ddysgu a gorffen eu hasesiadau. Mae cefnogi dysgwyr bregus a/neu ddifreintiedig yn ystyriaeth allweddol i'r sector AB.

Codwyd pryderon gyda darparwyr na fyddai cyflogwyr yn derbyn prentisiaid yn ôl unwaith bydd y cyfyngiadau presennol wedi dod i ben. Fodd bynnag, y neges i golegau yw bod cyflogwyr, mewn llawer o achosion, yn croesawu prentisiaid i ddychwelyd pan fydd yr amgylchiadau presennol yn lleddfu. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi anawsterau'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae prentisiaid sydd wedi cael absenoldeb ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU yn dal eu gweld fel prentisiaid, gan eu bod yn parhau i fod yn gyflogedig, a gallant barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.

Ar 9fed Ebrill 2020, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru[5] fanylion pellach am y camau a gymerir i ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn haf 2020 i ddysgwyr y mae argyfwng Covid-19 yn effeithio arnynt. Nododd Cymwysterau Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb i bob dysgwr, y cymerir yr un dull ar gyfer dysgwyr yng Nghymru â'r un a nodwyd gan Ofqual[6]. Disgwylir mwy o fanylion yn fuan ynglŷn â'r broses ar gyfer cynhyrchu canlyniadau wedi'u cyfrifo gyda sefydliadau dyfarnu, a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl i'w canolfannau (colegau) yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ar 20fed Ebrill 2020, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y byddai dysgwyr Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) yn derbyn “canlyniad wedi'i gyfrifo…. yn seiliedig ar y canlyniad yr oedd eu tiwtor/asesydd yn credu y byddent yn ei dderbyn pe baent wedi sefyll y profion”[7]. Bob blwyddyn, mae llawer o ddysgwyr coleg yn ymgymryd â SHC. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, eleni bydd dysgwyr yn derbyn gradd wedi ei gyfrifo. Ar hyn o bryd mae colegau'n cefnogi dysgwyr SHC trwy osod targedau ar gyfer dilyniant gan gynnwys defnyddio adnoddau, a chyfeirio dysgwyr at offer digidol i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

### Heriau a llwyddiannau

Er bod hon yn sefyllfa ddigynsail i golegau a darparwyr DSW eraill, mae'r sector yn awyddus i sicrhau bod dysgwyr yn parhau â'u rhaglenni lle bo hynny'n bosibl, ac yn parhau i dderbyn y cyfleoedd gorau i gwblhau eu hasesiadau yn ôl y disgwyl.

Yn ystod yr amseroedd ansicr hyn, mae colegau'n parhau i gefnogi eu prentisiaid a'u hyfforddeion trwy gyswllt wythnosol â dysgwyr ac adolygiadau cynnydd rheolaidd sy’n cael eu cynnal o bell. Nododd un consortiwm DSW fod 73.6% o brentisiaid yn parhau i weithio i'w cyflogwr, tra bod tua 26% yn cymryd absenoldeb ffyrlo, gyda bron pob un yn parhau i symud ymlaen â'u cymhwyster. Dywedodd pob coleg fod nifer fawr o brentisiaid yn dal i weithio, tra bod eraill yn gwneud gwaith theori wrth iddynt gymryd absenoldeb ffyrlo o waith.

[5] https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/dyfarnu-cymwysterau-galwedigaethol-yr-haf-hwn---9-ebrill-2020/
[6] https://www.gov.uk/government/news/awarding-vocational-and-technical-qualifications-this-summer
[7] https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/trefniadau-wrth-gefn-sgiliau-hanfodol-cymru---20-ebrill-2020/

Mae pob coleg mewn cysylltiad rheolaidd â'u dysgwyr DSW trwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein fel Zoom neu Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd a sesiynau adolygu wythnosol, wrth barhau i baratoi gwaith a dilyn cyngor y Llywodraeth. Mae staff hefyd yn cadw cofnod o gyswllt â dysgwyr trwy sgrin-luniau, ebyst a logiau gwaith. Mae aseswyr yn defnyddio dulliau asesu amgen i gofnodi profiad gwaith ymarferol go iawn. Mae un dysgwr plymio, er enghraifft, wedi cwblhau'r ymarferion plymio domestig bach yn y cartref, ac yn danfon recordiad fideo at yr asesydd. Ym maes lletygarwch, mae prosiectau yn y cartref, fel coginio ar gyllideb ac ymarferiadau hanfodol fel gwneud bara, hefyd yn cael eu hannog. Mae modd tystio rhywfaint o'r gweithgareddau yma tuag at gwrdd â sgiliau ac ymddygiadau wrth ennill gwybodaeth a dealltwriaeth newydd.

Mae lles a chymorth iechyd meddwl dysgwyr yn ystod yr adeg hon yn flaenoriaeth i bob coleg. Mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr wedi symud ar-lein i ehangu mynediad, ac mae aseswyr yn canolbwyntio’n fwy ar iechyd meddwl a lles gyda’u myfyrwyr.

Mae bron pob aelod o staff yn parhau â lefel y gwaith sy'n ofynnol i gefnogi dysgwyr a chyflogwyr, ac i gynnal y lefel briodol o drywydd archwilio. Mae cynnal yr un nifer o staff yn hanfodol i gynorthwyo dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau ac i ddal ati i ymgysylltu. Mae rhai staff wedi gweld llwyth gwaith cynyddol oherwydd bod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr yn ystod yr amser anodd hwn.

Er y gall rhai dysgwyr sy’n fwy tebygol o brofi anhawster gydag unigrwydd, mae rhai ar hyfforddeiaethau wedi parhau i weithio o adref, weithiau mewn ffyrdd creadigol. Gwnaeth un disgybl gosod batio ei hun ac anfon llun o'r canlyniadau at ei diwtor. Mae hyn yn tynnu sylw at y dysgu yn y cartref parhaus sy'n digwydd, yn ogystal â gwaith theori ar-lein. Mae hyfforddeion eraill yn ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddol, ac yn defnyddio adnoddau ar-lein i wella eu sgiliau meddal a'u sgiliau cwrs-benodol. Mae darparwyr y coleg hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddiant Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n ymgymryd â hyfforddeiaethau i gadw ffocws ar ddilyniant pan fydd y cyfyngiadau presennol wedi dod i ben.

Dylid nodi, er gwaethaf ymdrechion gorau prentisiaid diwyd, ac er gwaethaf yr ymdrechion gorau i gynnal dysgu, mae'n anochel y bydd yr argyfwng yn effeithio ar rai o ganlyniadau hyfforddeiaethau, prentisiaethau a rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru. Bydd angen mynd i'r afael â hyn a'i ariannu yn y rownd gontract nesaf (Awst 2020/Gorffennaf 2021). Bydd methu â gwneud hynny yn golygu gwastraffu'r gweithgaredd a ariennir sydd eisoes wedi digwydd, a bwlch sgiliau i gyflogwyr. Mae colegau, fel darparwyr AB a DSW, yn awyddus i archwilio gyda Llywodraeth Cymru ddychwelyd raddol i addysg wyneb yn wyneb ac yn benodol i ailgyflwyno asesiad ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol, yn enwedig mewn sectorau allweddol.

## Gweithgareddau ychwanegol gan golegau DSW

Fel sefydliadau craidd, mae colegau ar hyn o bryd yn defnyddio sgiliau eu dysgwyr DSW i helpu eu cymunedau lleol mewn amryw o ffyrdd, megis gwirfoddoli mewn banciau bwyd neu drwy gynhyrchu Offer Amddiffynnol Personol a’u dosbarthu i'r GIG. Mewn rhai colegau, mae aseswyr yn gweithio gyda phrentisiaid mewn rhai sectorau i sefydlu a chynnal "systemau cyfeillion". Mae effaith y systemau hyn yn gweld dysgwyr yn parhau i fod yn llawn cymhelliant ac ymgysylltiad, mae perthnasoedd yn y gwaith yn cael eu gwella, a lles meddyliol yn cael ei gefnogi.

Mae her Covid-19 wedi rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o ddatblygiad sgiliau newydd, yn enwedig lle mae diwydiannau'n addasu eu cynhyrchiad i fodloni gofynion cyfredol. e.e. cynhyrchu masgiau wyneb, neu yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol lle mae prentisiaid yn aml yn dysgu sgiliau newydd neu'n gorfod addasu ar unwaith i'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r blaen tra ar y rhaglen.

# CASGLIAD

Mae dysgwyr a phrentisiaid ar draws pob rhan o ddarpariaeth DSW, wedi dangos chydnerthedd yn ystod amser anodd dros ben, gan symud o addysg wyneb yn wyneb i ddysgu digidol ar-lein ac ymdrin ag aflonyddwch i'r gweithgareddau a'r asesiadau y byddent wedi'u disgwyl mewn modd cadarnhaol. Mae rhai wedi delio â phwysau swyddi cynyddol, tra bod eraill wedi derbyn absenoldeb ffyrlo. Mae parhau i ymgysylltu â dysgwyr DSW trwy eu hastudiaethau'n hanfodol, felly mae colegau yng Nghymru yn ymroddedig i ddarparu'r dysgu digidol a dysgu o bell gorau, gyda phob cefnogaeth angenrheidiol arall bosibl.

Yn yr un modd, mae staff ar draws y sector DSW wedi addasu i amgylchiadau heriol iawn ac yn parhau i fod yn ffynhonnell cefnogaeth i gyflogwyr a dysgwyr. Yn ystod yr amser hwn a thrwy gydol cyfnod yr argyfwng iechyd cyhoeddus, bydd colegau yn cydweithredu i ddatblygu a rhannu arfer gorau i sicrhau'r profiadau dysgu mwyaf cadarnhaol posibl i'w dysgwyr. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn y sector DSW yn derbyn yr un lefel o ystyriaeth, cefnogaeth a chynllunio ar gyfer eu dyfodol â'u cyd-ddysgwyr academaidd.

Gan fod y sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, rydym wedi ceisio cadw'r briff hwn mor gyfoes â phosibl. Mae unrhyw ddiweddariadau pellach ar gael ar ein gwefan[8] neu dudalen Twitter[9].

[8] http://colegau.cymru/
[9] https://twitter.com/colegaucymru

ColegauCymru
CollegesWales

Ffôn
02920 522 500

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

ColegauCymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

Gwefan
www.colegau.cymru

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru
COV 87
Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru)

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee
Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales
COV 87
Response from: National Union of Students Wales (NUS Wales)

## About NUS Wales

National Union of Students Wales (NUS Wales) is the representative body of more than 250,000 students in Wales. We work on behalf of 20 member students' unions on the issues that affect students in higher education and further education.

## Student Financial Support

1. The NUS Coronavirus and Students Survey[1] found that 78% of students in Wales were worried about the impact of Covid-19 on their finances, while 73% were worried about how they would continue to afford rent. Almost half said the income of someone they depend on financially has been affected by the virus. 47% of students in work said they had lost income in some way; 16% had been furloughed, 11% had taken unpaid leave, 10% had had their hours reduced, and 10% had been made redundant. Following public health advice, many students have chosen to leave their term-time accommodation early to spend lockdown with their families. 25% of students told us they would like to be released from their accommodation contract early, but just 9% had been given the opportunity to do so. Students are continuing to bear the financial burden, but many have seen their finances adversely affected by the situation.

2. Most students cannot access existing government support schemes for Covid-19. The majority of full-time students are not entitled to receive Universal Credit, while the casual nature of student work has meant that a lot of students are ineligible for the furlough scheme. Part-time student work is often in sectors such as retail, hospitality and leisure, each of which have been greatly impacted by lockdown.

3. Welsh Government is currently advising students facing financial hardship because of Covid-19 to apply to their institution's hardship fund. Hardship funds are pots of money maintained by institutions that students can apply to if they are facing financial difficulties. They are finite funds designed to support a very limited number of students each academic year. Hardship funds become depleted throughout the academic year as awards are allocated to students. We therefore anticipate that hardship funds will already have been depleted before lockdown was announced. The Covid-19 crisis is an unprecedented situation that hardship funds are not designed for. Furthermore, many hardship funds are limited to full-time students with home status, so part-time and international students are unable to access them. We have heard anecdotal evidence of institutions fundraising to top up their hardship funds, indicating increased demand. Relying on fundraising and goodwill to support students through this crisis is unsustainable. The details of each HE institution's hardship

[1] https://www.nusconnect.org.uk/resources/covid-19-and-students-survey-report-wales

fund can be found in their annual fee and access plan; 2019/20 and 2020/21 allocations are set out in the following table:

| Institution | Hardship Fund (£) | | Anticipated student numbers supported | | Funding per student (nearest £) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 |
| Aberystwyth[2] | 200,000 | 200,000 | 320 | 280 | 625 | 714 |
| Bangor[3] | 201,500 | 150,000 | Not listed | Not listed | N/A | N/A |
| Cardiff[4] | 550,000 | 500,000 | 750 | 1,000 | 733 | 500 |
| Cardiff Met[5] | 150,000 | 150,000 | 400 | 300 | 375 | 500 |
| GLLM[6] | 12,000 | 12,000 | 55 | 55 | 218 | 218 |
| NPTC[7] | 6,000 | 6,000 | 10 | 10 | 600 | 600 |
| Swansea[8] | 323,000 | 431,144 | 1,100 | 900 | 294 | 479 |
| USW[9] | 570,000 | 570,000 | 700 | 600 | 814 | 950 |
| UWTSD[10] | 230,000 | 270,197 | 460 | 460 | 500 | 587 |
| Wrexham Glyndŵr[11] | 50,000 | 50,000 | 150 | 150 | 333 | 333 |

4. Recognising the significant financial pressures faced by students, the governments of Scotland and NI have announced hardship funds of £5 million[12] and £1.4 million[13] respectively, though more is expected for the latter. NUS Wales is calling for a £3 million hardship fund for Wales. The UK Government's package of support for the HE sector in England included the ability for institutions to reallocate widening participation resource to their hardship funds[14]. While this announcement acknowledged the need for immediate financial relief for students, removing money from widening participation budgets is a case of robbing Peter to pay Paul. Financial support for students facing hardship because of Covid-19 should not re-appropriated from funding streams designed to benefit vulnerable students.

5. We appreciate that Welsh Government is continuing to provide financial support to students in the form of maintenance grants and loans for HE students and the Education Maintenance Grant for FE students. Welsh-domiciled HE students receive a comparatively generous maintenance package to their peers across the rest of the UK, but it is important to note that many students at Welsh institutions are from other nations of the UK, or are EU or international students, and receive different living support arrangements entirely. Because governments across the UK are referring students to institutional hardship funds, it is not the nation where a student is domiciled, but where they live during their studies, which is determining access to financial relief.

2 https://www.aber.ac.uk/en/about-us/student-fees/
3 https://www.bangor.ac.uk/studentfinance/index.php.en
4 https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/tuition-fees/fee-and-access-plan
5 http://www.cardiffmet.ac.uk/study/finance/Pages/Fee-Plans.aspx
6 https://www.gllm.ac.uk/hepolicies/
7 https://www.nptcgroup.ac.uk/he-documents/
8 https://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/tuition-fees/tuition-fee-plan/
9 https://www.southwales.ac.uk/study/fees-and-funding/undergraduate/undergraduate-home/
10 https://www.uwtsd.ac.uk/finance/fee-plan/
11 https://www.glyndwr.ac.uk/en/Feesandstudentfinance/Undergraduatefees/
12 https://www.gov.scot/news/extra-hardship-payments-for-students/
13 https://www.belfastlive.co.uk/news/belfast-news/coronavirus-111m-funding-boost-northern-18276082
14 https://www.gov.uk/government/news/government-support-package-for-universities-and-students

2nd Floor, Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 0292 043 5390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

## Physical and Mental Health of Young People

6. We are concerned about the impact of Covid-19 on the mental health of learners at all levels of the post-16 education system. We have received reassurances from government and providers that support services are being adapted for online use.

7. We are working with Welsh Government and HEFCW respectively to determine how best to spend the £2 million each for mental health and well-being initiatives for the FE sector, and are awaiting news of the announced £2m for HE.

8. The mental health implications of Covid-19 on the general population are well documented and it is vital that students are not forgotten in any initiatives. One particular area of concern is those students who have been called into the front line of the crisis and the possibility of PTSD and other mental health impacts.

9. Any plan to return to face-to-face teaching and learning must put the safety of students and staff at the forefront.

## Vulnerable and Disadvantaged Learners

10. The switch to online learning necessitated by Covid-19 has had a worryingly disproportionate effect on students from widening participation backgrounds. Students from poorer socio-economic backgrounds have been less able to access resources to facilitate their learning in an online environment. Factors such as poor/non-existent internet connectivity, a lack of appropriate technology such as laptops and tablets, and unsuitable learning spaces due to poor quality housing are contributing to an inferior educational experience for students from disadvantaged backgrounds across the post-16 sector.

11. There are a number of ways that students may not be able to complete their students to a satisfactory degree because of Covid-19. Students with caring responsibilities are dealing with additional duties because of the impacts of Covid-19 e.g. parents whose children's schools have been closed.

12. Students on placement or vocational courses are also disadvantaged by Covid-19. Many students have been unable to complete placements that count towards their final qualification. Some of these students are required to demonstrate certain achievements to satisfy requirements of Professional, Statutory and Regulatory Bodies (PSRBS). We are especially concerned about the financial impact on apprentices – arguably already disadvantaged by their Apprentice Minimum Wage and lack of access to student support.

13. It has been well reported that Covid-19 is having a disproportionate impact on people from BAME backgrounds. We expect this to have a knock-on effect on the attainment gap. Covid-19 has the potential to widen attainment gaps in general and widening participation activities should be ramped up by education institutions to recognise that the economic damage caused by Covid-19 will dissuade many potential students from disadvantaged backgrounds from pursuing further and higher education

14. It would be deeply unfair for students who have been unable to complete their education to a satisfactory degree because of the impacts of Covid-19 – often those from vulnerable backgrounds – to have to bear additional costs to complete their education at a later date.

2nd Floor, Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 0292 043 5390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk



nus wales
national union of students

## Exams and Qualifications

15. We are broadly satisfied with the approach taken to exams and assessments for students in further education. However, there remains concerns around the provision of technical resources and access to broadband that remains a challenge for some. We are aware colleges are doing as much as they can to help, but we want to make sure that no one is falling through the gaps.

16. All Welsh HE providers have implemented 'safety net' or 'no detriment' policies which ensure that a student cannot achieve a grade lower than the average they were working to before lockdown, regardless of performance in exams and assessments. We endorsed this approach at the time and welcome institutions' willingness to recognise that Covid-19 will have varying levels of impacts on students depending on individual circumstances.

17. We are calling for any student who has been unable to complete their studies to an adequate degree to be able to either re-take the year at no extra cost, refund the cost of this year, or write off debt accrued for this year. It would be deeply unfair for students who have been affected by Covid-19 – often those from disadvantaged backgrounds – to have to pay more to complete their studies.

## Higher Education

18. We share sector-wide concerns about the impact of Covid-19 on the sustainability of the higher education sector and support calls for additional government support to help safeguard higher education providers at this time.

19. It is incumbent on higher education providers to ensure that any return to face-to-face teaching and learning happens when it is safe to do so, and that student and staff safety is the number one priority. Institutions' financial health must not be put before the physical health of staff and students.

20. It is also vital that institutions are clear about the nature of the offer they are making to students. Students who have accepted offers must be allowed to defer or withdraw at any point if they are uncomfortable with the offer, whether online or in-person teaching is suggested. The same applies to accommodation offers, whether institution managed, private PBSA or other private accommodation.

2nd Floor, Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 0292 043 5390
e office@nus-wales.org.uk
**www.nus.org.uk**



nus wales
national union of **students**

I am writing to you as I am unable to attend the committee meeting and I want to ensure that you and your committee colleagues are sighted on the very real implications of the Covid Crisis on the post 16 sector in Wales.

**FUNDING**

